Tasg 2

# Trawsblannu calonnau

Darllenwch y wybodaeth am Drawsblannu Organau unwaith eto cyn astudio'r tabl ac atebwch y cwestiynau isod.

**Llinell Amser Datblygiadau Llwyddiannus ym maes Trawsblannu Organau ar draws y byd**

| Trawsblannu beth? | Pryd? | Ble? |
|---|---|---|
| Y trawsblaniad croen cyntaf | 1823 | Yr Almaen |
| Y trawsblaniad cornea cyntaf | 1905 | Y Weriniaeth Siec |
| Y trawsblaniad aren cyntaf | 1950 | Chicago, UDA |
| Y trawsblaniad falf calon cyntaf | 1955 | Canada |
| Y trawsblaniad aren cyntaf o berson wedi marw | 1962 | UDA |
| Y trawsblaniad pancreas cyntaf | 1966 | Minnesota, UDA |
| Y trawsblaniad afu cyntaf | 1967 | Denver, UDA |
| Y trawsblaniad calon cyntaf | 1967 | Cape Town, De Affrica |
| Y trawsblaniad calon ac ysgyfaint cyntaf | 1981 | Sanford, UDA |
| Y trawsblaniad llaw cyntaf | 1998 | Lyon, Ffrainc |
| Y trawsblaniad wyneb llwyr cyntaf | 2010 | Sbaen |

**Cwis trawsblannu**

| | | ✓ | X |
|---|---|---|---|
| 1. | Digwyddodd y trawsblaniad calon cyntaf erioed yn Llundain. | | |
| 2. | Digwyddodd y trawsblaniad pancreas cyntaf cyn y trawsblaniad aren cyntaf. | | |
| 3. | Rhan o'r llygaid yw'r cornea. | | |
| 4. | Trawsblannu calon ac ysgyfaint gyda'i gilydd yw'r trawsblaniad anoddaf. | | |
| 5. | Daeth Deddf Trawsblannu Cymru i rym ym mis Rhagfyr 2016. | | |
| 6. | Digwyddodd y trawsblaniad afu cyntaf yn Lyon, Ffrainc. | | |
| 7. | Digwyddodd y trawsblaniad croen cyntaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. | | |
| 8. | Dr Christiaan Barnard gyflawnodd y trawsblaniad calon llwyddiannus cyntaf. | | |
| 9. | Digwyddodd y trawsblaniad wyneb llwyr cyntaf yn Sbaen. | | |
| 10. | Digwyddodd y trawsblaniad falf calon cyntaf yng Nghanada ym 1955. | | |